

Ymyrraeth	Teithio Cynaliadwy	Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd
		Oren	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd
Arwain	Ceri Doyle / Craig Lane	Cyfnod Adrodd	Ch4 2021-22
		Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed

Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy: Cafodd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ei lansio ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o sefydliadau wedi ymuno â'r siarter hyd yn hyn. Mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu arfer gorau i gyflawni'r 15 ymrwymiad yn y siarter.

CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafniadaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo: Mae trafniadaeth Cymru yn arwain y gwaith o bennu dichonolrwydd llogi beiciau ar y stryd. Mae gwelliannau i lwybrau teithio llesol ym Mryngaer Croes Trelech a gosod arwyneb newydd ar lwybr Camlas Malpas/Betws wedi bod yn llwyddiannus. Mae tair ysgol gynradd wedi'u dewis i gymryd rhan mewn cynllun peilot strydoedd ysgol di-draffig. Mae'r cynlluniau peilot wrthi'n cael eu datblygu ac mae Sustrans yn gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau ymgysylltiad rhieni ac annog newid ymddygiad cyn i'r cynlluniau peilot ddechrau. Ar ôl sawl cylch o ymgynghori cyhoeddus, mae'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol bellach wedi'i gwblhau. Defnyddir y map i gynllunio datblygiadau teithio llesol yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf. Arweiniodd bwrdd Teithio Llesol Cymru hefyd ar weithdy i randdeiliaid yn ardal Casnewydd.

CAM 3: Annog defnyddio ULEV: Caffaelwyd cymorth ymgynghori, i gynhyrchu canllawiau dylunio i gasglu ystyriaethau wrth osod manau gwefru cerbydau trydan ar y briffordd, yn ogystal â darparu 'dadansoddiad o'r bylchau' i dynnu sylw at yr ardaloedd yng Nghasnewydd sydd â chyfran isel o barcio oddi ar y stryd neu ddim parcio oddi ar y stryd ac nad ydynt eisoes o fewn taith gerdded pum munud i fan gwefru sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae manau gwefru cyflym yn mynd yn fyw yr wythnos nesaf mewn naw lleoliad preswyl ledled Casnewydd, gan dargedu'r ardaloedd a nodwyd yn y dadansoddiad o'r bylchau. Mae pedwar lleoliad wedi'u nodi ar gyfer hyb cyflym, er mwyn gwella gallu preswylwyr i wefru eu cerbyd ymhellach, yn ogystal â darparu mwy o gyfleusterau gwefru i ymwelwyr a cherbydau masnachol.

Prif Risgiau / Rhwystrau	Statws	Camau Lliniarol
Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.	Uchel	Mae cynrychiolwyr SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.
Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.	Canolig	Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.
Nid yw'r cynllun llogi beiciau ar y stryd yn mynd yn ei flaen	Canolig	Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mesurau Perfformiad	Amserlen	Targed	Gwirion-eddol	COG	
Cam 1: Siarter Teithio	Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent	Tach 2021	15	23	Gwyrdd
Cam 2: Teithio Llesol	% y cynnydd mewn teithiau o gyfrifon teithio llesol ar lwybrau teithio llesol o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer pob chwarter	2020-21	0-1 oed	47%	Gwyrdd
		2021-22	C1	30%	Gwyrdd
			C2	50%	Gwyrdd
			C3	64%	Gwyrdd
			C4	40%	Gwyrdd
	0-1 oed	25%	40%	Gwyrdd	
Cam 3: ULEV	Nifer y bysus ULE ar waith	Rhag 2022	30	16	Gwyrdd
	Pwyntiau gwefru wedi'u gosod	Mawrth 2021	40	46	Gwyrdd

Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

CAM 1: Mae ymrwymadau'r Siarter Teithio yn cael eu diweddarau gan sefydliadau. Bydd holiadur staff yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

CAM 2: Datblygu a chyflawni cynllun peilot strydoedd ysgol di-draffig. Datblygu Strategaeth Teithio Llesol ar gyfer 2022/23.

CAM 3: Aros am ganlyniadau'r cais i'r Llywodraeth Ganolog, drwy OZEV, am osod 10 safle arall ar y stryd y flwyddyn nesaf, gyda'r arian cyfatebol yn dod drwy ULEV.